



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Dogfen dechnegol

Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru fel sy'n ofynnol o dan adran 11(1)  
o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Fe'i cyhoeddwyd gyntaf: 24 Mehefin 2019

## Sut i fesur cynnydd?

Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru fel sy'n ofynnol o dan adran 11(1) o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

## Gwybodaeth Dechnegol

Mae Tabl 1 isod yn cynnig gwybodaeth dechnegol ychwanegol am y dangosyddion a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 11(1) o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Gallwch ddod o hyd i'r Ddeddf yma <https://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/vawdasv-wales-act-2015?skip=1&lang=cy>

Caiff yr holl ddangosyddion eu mesur ar lefel Cymru gyfan.

### **Nodwch:**

Mae'r dangosyddion cenedlaethol sydd wedi'u nodi yn y ddogfen hon yn ddangosyddion cam cyntaf. Bydd gwaith datblygu pellach yn cael ei gynnal yn ystod 2019-2020 ar y cyd â rhanddeiliaid er mwyn datblygu'r dangosyddion, y mesurau a ffynonellau'r data. Mae hynny'n unol â'r ddarpariaeth sydd wedi'i nodi yn adran 11(3) o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Mae enghreifftiau o'r math o ddata a fframweithiau deilliannau eraill a allai gynnig naratif ategol ar gyfer y dangosyddion hyn yn cael eu cyfeirio atynt o dan 'Gwybodaeth Gyd-destunol'. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i bob un ohonynt gael eu defnyddio ar unrhyw un adeg, a gallai data eraill gael eu defnyddio fel gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer y dangosyddion hefyd.

Pan fo'n bosibl, gallai'r data gael eu dadgyfuno i wahanol ardaloedd yng Nghymru. Ond, ni fydd pob math o ddata ar gael i'r un lefel ddaearyddol, a bydd cryfder y data hynny yn dibynnu ar ffynonellau'r data.

Yn yr un modd, os yw'n bosibl, gallai'r data gael eu dadgyfuno yn ôl y gwahanol nodweddion gwarchoddedig (fel y'i nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010). Fodd bynnag, ni fydd pob math o ddata ar gael ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchoddedig. Caiff y dangosyddion eu dadansoddi os bydd y data'n gadarn ac yn briodol i'w defnyddio yn y cyd-destun hwnnw.

Bydd y gwaith datblygu pellach y cyfeiriwyd ato uchod hefyd yn rhoi mwy o syniad ynghylch a all y data gael eu dadgyfuno yn ôl ardal leol, grŵp cydraddoldeb a gwybodaeth gyd-destunol arall a fydd yn helpu'r gwaith dadansoddi.

Caiff y set derfynol o ddangosyddion cenedlaethol ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn gwanwyn 2020.

## Tabl 1:

Mae'r Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi'u cynllunio er mwyn adrodd am y cynnydd a wneir tuag at gyflawni diben y Ddeddf. Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn amlinellu'r chwe amcan allweddol y mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl eu cyflawni erbyn mis Tachwedd 2021, ac maent wedi'u trefnu i fod yn gyson â chyflawni diben y Ddeddf, sef gwella: Trefniadau ar gyfer **Atal** trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; Trefniadau ar gyfer **Amddiffyn** dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; **Cymorth** i bobl y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt.

Rhif y Dangosydd	Mesur (Dyma'r dangosydd fel y mae wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru)	Rhif y Mesur Technegol	Mesur Technegol (Dyma'r disgrifiad technegol llawn o'r dangosydd, lle bo hynny'n briodol)	Ffynhonnell y data	Gwybodaeth Gyd-destunol
1	Cynyddu nifer yr achosion y rhoddir gwybod am bob math o drais yn erbyn	1.1	Nifer y troseddau trais / ymosodiad rhywiol a gofnodir gan yr heddluoedd yng Nghymru.	Data Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu, y Swyddfa Gartref	Amcangyfrifon o nifer y dioddefwyr cam-drin domestig, ac o ba mor aml y mae achosion o gam-drin domestig yng Nghymru a ddaw o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr.

	menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol	1.2	Nifer y digwyddiadau a'r troseddau cam-drin domestig a gofnodir gan yr heddluoedd yng Nghymru.		
2	Cynyddu ymwybyddiaeth ar draws pob rhan o'r gymdeithas fod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn annerbyniol	2.1	Canran y bobl 16 oed a hŷn sy'n meddwl ei bod annerbyniol bob amser i daro eu partner neu roi slap i'w partner - yn ôl grŵp oedran	Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, Swyddfa Ystadegau Gwladol	
		2.2	Canran y bobl 16 oed a hŷn sy'n ymwybodol o fentrau Llywodraeth Cymru i leihau achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.  <b>Nodwch: Mae angen gwaith ymchwilio pellach i asesu a chwblhau'r mesur hwn.</b>	Arolwg Cenedlaethol Cymru a/neu weithgarwch ymchwil pellach (i'w gytuno)	Nifer y galwadau drwy wefan Byw Heb Ofn (data a ddarperir gan Cymorth i Ferched Cymru)

3	Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru o bwysigrwydd cydberthynas diogel, cyfartal ac iach	3.1	<p>Canran/nifer y plant ysgol a phobl ifanc yng Nghymru sy'n mynychu sesiynau i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.</p> <p><b>Nodwch: Mae angen gwaith pellach i ddod i wybod am ddarparwyr / rhanddeiliaid perthnasol a phennu sut y gellir cipio/rhifo data.</b></p>	Spectrum Data / Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) / Cymorth i Ferched Cymru	
4	Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc fod cam-drin yn anghywir bob amser	4.1	Canran y bobl ifanc 16 i 24 oed sy'n meddwl ei bod yn annerbyniol bob amser i daro eu partner neu roi slap i'w partner	Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, Swyddfa Ystadegau Gwladol	

5	Sicrhau bod mwy o achosion sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn arwain at arestiadau, erlyniadau ac euogfarnau.	5.1	Canran yr erlyniadau sy'n ymwneud â cham-drin domestig ac sy'n arwain at euogfarn yng Nghymru	Gwasanaeth Erlyn y Goron	Data ar y canlyniadau a neilltuir i droseddau a bennir yn rhai sy'n ymwneud â cham-drin domestig a ddaw o Ganolfan Data'r Swyddfa Gartref.
		5.2	Nifer yr arestiadau ar gyfer pob 100 trosedd sy'n ymwneud â cham-drin domestig yng Nghymru	Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi	
6	Sicrhau bod ymyrraeth briodol ar gael i gyflawnwyr	6.1	Y gyfradd aildroseddu brofedig ar gyfer troseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig  Nodwch: Bydd angen parhau i gydweithredu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i bennu a all cyfraddau aildroseddu gael eu darparu yn benodol ar gyfer troseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig yng Nghymru.	Ystadegau ar Aildroseddu Profedig y Weinyddiaeth Gyfiawnder  <a href="https://www.gov.uk/government/collections/proven-reoffending-statistics">https://www.gov.uk/government/collections/proven-reoffending-statistics</a>	

		6.2	<p>Nifer y cyflawnwyr yng Nghymru sy'n manteisio ar raglenni ymyrraeth</p> <p><b>Nodwch: Mae angen gwaith pellach i ddod i wybod am ddarparwyr / rhanddeiliaid perthnasol a phennu sut y gellir cipio/rhifo data.</b></p>	<p>I'w bennu, ond gallai gynnwys gwybodaeth gan y rhanddeiliaid canlynol:</p> <p>Relate Cymru, rhaglen Choose2Change  <a href="https://www.relate.org.uk/cymru/help-domestic-violence">https://www.relate.org.uk/cymru/help-domestic-violence</a></p> <p>Rhaglen wirfoddol ar gyfer cyflawnwyr, Phoenix Domestic Abuse Service  <a href="https://phoenixdas.co.uk/ab-out-us/">https://phoenixdas.co.uk/ab-out-us/</a></p> <p>Rhaglenni Respect Phonenumber ar gyfer cyflawnwyr trais domestig  <a href="http://respectphonenumber.org.uk">http://respectphonenumber.org.uk</a></p>	<p>Data ar droseddwyr sy'n cwblhau rhaglenni achrededig yn y ddalffa – HMMPPS Annual Digest:</p> <p><a href="https://www.gov.uk/government/statistics/annual-hm-prison-and-probation-service-digest-2017-to-2018">https://www.gov.uk/government/statistics/annual-hm-prison-and-probation-service-digest-2017-to-2018</a></p>
7	Sicrhau bod ymyrraeth gynnar effeithiol ar sail tystiolaeth i ddioddefwyr	7.1	Nifer y Gorchmynion Amddiffyn rhag Trais Domestig a roddir yng Nghymru	Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi	Nifer y ceisiadau a datgeliadau o ran 'Hawl i Wybod' a 'Hawl i Ofyn'

	a goroeswyr ar gael sy'n gyfartal i bawb a'u bod yn gallu manteisio'n gyfartal ar y ddarpariaeth	7.2	Nifer y Gorchmynion Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod yng Nghymru	Ystadegau'r Llys Teulu, y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Adroddiad Arweinwyr Iechyd ym maes Anffurfio Organau Cenedlu Benywod, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru)  <a href="http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/FGM%20Annual%20report%202017-18%20Final.pdf">http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/FGM%20Annual%20report%202017-18%20Final.pdf</a>
		7.3	Nifer y Gorchmynion Amddiffyn rhag Anffurfio Organau Cenedlu Benywod yng Nghymru	<a href="https://www.gov.uk/government/collections/family-court-statistics-quarterly">https://www.gov.uk/government/collections/family-court-statistics-quarterly</a>	
8	Sicrhau bod y rhai mewn swyddi perthnasol yn cael hyfforddiant i adnabod achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac ymateb yn briodol iddynt	8.1	Nifer y gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu cyflogi mewn Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru sydd wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ar lefel grwpiau perthnasol y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol	Data'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru  <a href="https://livefearfree.gov.wales/guidance-for-professionals/national-training-framework/?lang=en">https://livefearfree.gov.wales/guidance-for-professionals/national-training-framework/?lang=en</a>	Nifer yr Ymarferwyr ym maes Cam-drin Domestig yng Nghymru - data sy'n deillio o Arolwg SafeLives  <a href="http://www.safelives.org.uk/news-views/practitioner-survey">http://www.safelives.org.uk/news-views/practitioner-survey</a>



		8.2	Nifer a chanran y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru sydd wedi cwblhau hyfforddiant arbenigol perthnasol	<b>Mae angen gwaith ymchwilio pellach i asesu a gwerthuso ffynonellau posibl y data ar gyfer y mesur hwn.</b>	
9	Sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth priodol	9.1	Nifer yr atgyfeiriadau i lochesi neu i wasanaethau cymunedol eraill yng Nghymru	Arolwg Blynyddol Cymorth i Ferched  <a href="https://www.womensaid.org.uk/womens-aid-annual-survey-reports/">https://www.womensaid.org.uk/womens-aid-annual-survey-reports/</a>	Data ar y nifer a'r mathau o wasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru (gan gynnwys nifer y gwŵau sydd ar gael mewn llochesi) a ddaw o Cymorth i Ferched Cymru / Routes to Support (cyfeiriadur o wasanaethau yn y DU ar gyfer trais yn erbyn menywod a merched)
		9.2	Nifer yr achosion a drafodir mewn Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg yng Nghymru	Hwb Data Cymorth Amlasiantaeth SafeLives  <a href="http://www.safelives.org.uk/practice-support/resources-marac-meetings/latest-marac-data">http://www.safelives.org.uk/practice-support/resources-marac-meetings/latest-marac-data</a>	<a href="https://www.womensaid.org.uk/routes-to-support/">https://www.womensaid.org.uk/routes-to-support/</a>  Data ar y rhesymau pam y cafodd atgyfeiriadau yng Nghymru eu gwrthod (data a ddaw o Arolwg Blynyddol Cymorth i Ferched)
		9.3	Nifer yr achosion yr atgyfeirir i Gynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) (atgyfeiriadau ac ailatgyfeiriadau) yng Nghymru	Set ddata IDVA Insights, SafeLives  <a href="http://www.safelives.org.uk/atest-insights-national-datasets">http://www.safelives.org.uk/atest-insights-national-datasets</a>	Nifer y Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs) yng Nghymru o Arolwg Ymarferwyr SafeLives  <a href="http://www.safelives.org.uk/news-views/practitioner-survey">http://www.safelives.org.uk/news-views/practitioner-survey</a>

<p><b>10</b></p>	<p>Cynyddu hyder dioddefwyr a mynediad i gyfiawnder</p>	<p><b>10.1</b></p>	<p>Canran y rhai sydd wedi dioddef camdriniaeth gan bartneriaid sy'n teimlo'n fodlon neu'n weddol fodlon â'r canlyniad yn sgil eu profiad gyda'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.</p>	<p>Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, Swyddfa Ystadegau Gwladol</p>	
------------------	---	--------------------	---	--	--